

ENWAU ABERYSTWYTH

CARWEN VAUGHAN fu'n olrhain

Cynhyrchwyd y llyfr *Caeau a Mwy* (gol. Mererid Jones, Llyfrau Llafar Gwlad, 85, 2014) o ganlyniad i'r ymchwil gan ganghennau Merched y Wawr i ddiogelu ein henwau caeau difyr a hynod. Arferai'r enwau hyn fod yn hollol angenrheidiol wrth gyfeirio at ddarnau penodol o dir mewn modd hwylus wrth amaethu.

Fel pawb arall, buom ninnau yng nghanen Aberystwyth yn casglu. Astudio ardal drefol oedden ni, a'r caeau agosaf



dipyn o bellter i ffwrdd erbyn hyn. Er

nad casglu enwau caeau oedd ein bwriad, gwelwyd bod ôl enwau caeau a dylanwadau amaethyddol yn drawiadol ar enwau mewn unrhyw dref.

Tir pori a ffermydd oedd yma cyn yr adeiladau wrth gwrs. Fel ymhobman ceir stadau newydd wedi eu henwi ar ôl y ffermydd lle'u codwyd, megis Erw Goch, Penygraig, Parc y Llyn. Weithiau defnyddid enw'r cae, megis Cae Melyn, Cae'r Gog a Dan y Coed. Mae pentref helaeth ar gyrion



Aberystwyth o'r enw Penparcau sef diwedd y parciau neu'r caeau.

Wrth feddwl am enwau tref Aberystwyth fedrwn ni ddim anghofio dylanwad hanes. Y castell oedd cychwyn y dref a dyma pam bod llawer o'r enwau cynnar yn iaith y goresgynwyr. Yn 1106 adeiladwyd castell i'r de o'r afon Ystwyth a'i alw yn ddigon cywir yn Gastell Aberystwyth. Yna adeiladodd Edward y Cyntaf y castell presennol, ger afon Rheidol y tro hwn. O fewn y muriau amddiffynnol o gwmpas y castell trigai'r crefftwyr Seisnig, gan roi enwau Saesneg ar eu strydoedd a'u tai. Gydag amser mabwysiadwyd yr enw 'Castell Aberystwyth' o'r castell cyntaf. A dyna sut mae'r dref wedi ei cham-enwi! Aber Rheidol ydyw

mewn gwirionedd! Adlewyrchiad yw enwau fel Penbryndioddef (lle crogid drwgweithredwyr), Y Porth Tywyll Mawr a'r Stepys Mawr o'r cyfnod pan oedd y castell mewn bri. Pan fyddai trigolion y castell am fynd i Eglwys Llanbadarn, rhaid oedd iddynt ymlwybro ar draws y morfa ar hyd tramwyfa arbennig – *causeway* – a dyma darddiad yr enw Llangawsai ger Llanbadarn.

Dim ond ar ddiwrnod marchnad roedd caniatâd i'r Cymry fynd i'r dref i werthu eu cynnyrch. Deuent â'u hanifeiliaid i mewn a rhaid oedd cael pyllau o ddŵr glân i'r ceffylau a'r hwsmoniaid gael dŵr yfed. Dyna oedd Pwll Hobi (hobi fel ceffyl) a Phwll Iago a Phwll Seimon. Daethom o hyd i enwau ffynhonnau hefyd – er na fuaswn



fy hun yn ffansio yfed o ffynnon ag enw fel Ffynnon Twlc yr Hwch!

Aeth y castell yn llai pwysig wedi'r Tuduriaid er bod bathu arian ac allforio plwm yma. Bu'r dref y tu mewn i'r waliau yn hanner gwag am dros bum can mlynedd. Beth felly oedd oddi fewn i waliau'r dref?

Tir pori, ffermydd a chaeau! A choeliwch chi byth, mae rhai o'u henwau ar gael!

Dengys hen ddogfennau o ryw bum can mlynedd yn ôl fod yma dyddynnod fel Tyddyn dan y Dinas, Tyddyn yr Hen Fagwyr a Thyddyn Rhydd Onnen lle mae strydoedd Aberystwyth heddiw. Cafwyd enwau caeau megis Parc yr Eithin, Parc Bach, Parc yr Helyg Duon, Gwaun Lladron, Gweirglodd y Pwll Crwn, Crug Teirpant, Cae Glas, Cae'r Tŷ Cwrdd, Parc y Deintur a Bryn y Feithgen.

Aethom ati'n llawn cynnwrf i chwilio am olion o'r enwau yma yn guddiedig yn strydoedd y dref. Ond dyna siom! Gerddi Gleision a Tan y Cae oedd bron yr unig enwau i'n hatgoffa o gae! Penmaesglas oedd enw arall a gafwyd. Tir comin y dref oedd y Maes Glas, yn mynd i lawr at y môr.

Darganfuwyd un cae o ddiddordeb mawr i gyn-ddisgyblion yr hen Ysgol Ramadeg, Ardwyn, a gawsai ei hadeiladu ar safle tŷ mawr o'r un enw. Cafodd yr enw 'ffasiynol' Ardwyn – o 'twyn' – ei ysbrydoli gan y gair



Saesneg am fryncyn – *knoll*, sydd yn cael ei adlewyrchu yn enw gwreiddiol y safle, Cae Cnw.

Enw diddorol yw Heol y Wig. Enw ar goedwig fach? Nage wir! Enw ydyw sydd wedi ei nodi fel *Weeg* ar fap Lewis Morris, ar draeth y gogledd, ac mae'n golygu hafan fach yn dod i mewn o'r môr (*wick* yn Saesneg). (Enwau eraill ar fap Lewis Morris yw Pen Cwningen a Phen Huwycyn ar lecynnau sy'n ymwithio i'r môr.)

Wrth gwrs fel y disgwyliech, mae yna enwau yn ein casgliad nad ydynt yn enwau caeau. Gwelir dylanwad y môr ar enwau Aberystwyth. Mae peth wmbreth o dai'r dref yn dwyn enwau llongau, oherwydd cysylltiad y perchennog neu'r preswlydd, er enghraifft Tŷ Credo, cartref capten y llong hwyliau *Credo*. Byddid yn gwneud rhaffau yn Aberystwyth hefyd, fel y tystia'r enwau Bryn Ropos, Banc y Ropos a Rhiw Ropos.

Dechreuodd y diwydiant ymwelwyr yma amser oes Victoria a dyma wasgaru enwau brenhinol yn frith i ddenu twristiaid. Ceir Heol y Frenhines, Victoria Terrace, Maes Albert (ar ôl gŵr Victoria), Princess Street, Neuadd Alecsandra, Ffordd Alecsandra a Stryd y Brenin! Yn wir fe welwch Balmoral House os edrychwch yn fanwl!

Byddaf bob amser yn annog dysgwyr i brynu map ordnans o'u hardal er mwyn iddynt ddod i ynganu enwau eu cymdogaeth ac i adnabod eu cynefin newydd. Dyma sut mae dod i berthyn. Teimlais innau i'r cynllun enwau gan Ferched y Wawr olygu bod y casglu wedi ein helpu i ddysgu mwy am hanes a datblygiad ein hardaloedd a dod i adnabod ein cynefin yn well.